# Newyddlen Menter y Tŵr

Y TŴR PWLLHELI

**Medi 2025**

# Ymweliad Cynrychiolwyr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol



Rebecca Ball a Cathryn Evans o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ymweld a Menter y Tŵr

Yn ddiweddar, croesawodd Menter y Tŵr Rebecca Ball, Uwch Reolwr Buddsoddi, a Cathryn Evans, Uwch Swyddog Ymgysylltu o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i Bwllheli.

Hwn oedd ymweliad cyntaf Rebecca a Cathryn â'r safle. Cawsant gyfle i gyfarfod rhai o gyfarwyddwyr y fenter. Rhannwyd y weledigaeth gyffrous ar gyfer y safle, a trafod y camau nesaf yn natblygiad y prosiect.

Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd y cynlluniau ar gyfer trawsnewid Y Tŵr yn westy, hwb cymunedol a chanolfan dreftadaeth yng nghanol tref Pwllheli. Roedd hefyd yn gyfle i rannu'r uchelgais sydd wrth galon y fenter.

Mae'r fenter yn hynod falch o fod wedi derbyn grant gwerth £215,790 gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi cam Datblygu'r prosiect, gan ein galluogi i lunio cais llawn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf.

Mae'r gefnogaeth yma yn gam sylweddol ymlaen i wireddu'r freuddwyd o adfywio Y Tŵr, gan greu lleoliad sy'n gwasanaethu'r gymuned leol ac yn dathlu treftadaeth gyfoethog Pwllheli a'r ardal.

**Yn y newyddlen hon**


Ymweliad Cronfa Treftadaeth Loteri Cenedlaethol

Cyfarfod Blynyddol Menter Y Twr

Ocsiwn Addewidion

Calendr Digwyddiadau

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.



**Carys Owen yn cyfarch y cyfranddalwyr**

Daeth dros 60 o gyfranddalwyr Menter Y Twr i'r cyfarfod blynyddol yng Nghlwb Golff Pwllheli nos Wener 27 Medi. Cyflwynwyd adroddiad ariannol a diweddariad am y cynnydd a wnaethpwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Trafodwyd yr heriau wynebodd y fenter yn ogystal a'r llwyddiannau a'r cydweithio arbennig fu gyda'r gymuned. Cadarnhawyd y Cyfarwyddwyr a diolchwyd i'r gwirfoddolwyr.



Amlinellodd Caryl Lewis y prosiectau sydd ar y gweill yn sgil buddsoddiad diweddar Cronfa Treftaddaeth y Loteri Genedlaethol a rol allweddol Menter y Tŵr yn natblygiad economaidd a cymuneddol yr ardal. Yn dilyn y cyfarfod blynyddol agorwyd y drysau i'r gymuned ddod i wrando ar berfformiad gan y gantores leol, Ffion Wynne. Roedd yn gyfle i ddod at ein gilydd fel cymuned i ddathlu llwyddianau'r fenter dros y flwyddyn a diolch am waith caled pawb sydd wedi cefnogi a rhoi eu hamser.

# OCSIWN ADDEWIDION 17 HYDREF CLWB GOLFF PWLLHELI

Diolch i gwmniau ac unigolion sydd wedi cyfrannu yn hael er budd Menter Y Twr. Mae gennym restr helaeth o eitemau amrywiol. Dyma flas i chi o'r rhai sydd wedi cadarnhau. Cadwch lygaid ar y gwefannau cymdeithasol am fwy o fanylion am yr eitemau a'r trefniadau.

- Talebau Gwyliau
- Ynys Enlli -Trip diwrnod i 2 oedolyn.
- Triniaethau Harddwch, ewinedd a gwallt.
- Prydau bwyd, te prynhawn a Cinio Sul
- Gwaith Celf a Crochenwaith
- Gwasanaeth Garddio, Nwy a Trydan.
- Sesiynau Sawna
- Gosodiadau Blodau.
- Gwersi preifat Celf a Chwaraeon
- Glanhau simdde.
- Talebau Bwydydd a Gwin
- Gwersylla - safle gyda trydan am 2 noson
- Englynion, Cerddi a Darluniau wedi eu comisiynu
- Hamperi Bwyd a Harddwch
- Talebau ac eitemau o siopau lleol

## Calendr Digwyddiadau

**17 Hydref 2025**
Clwb Golff Pwllheli. **Ocsiwn Addewidion**. Drysau yn agor 6.30pm a'r Ocsiwn yn cychwyn 7.00pm.

**18 Hydref 2025**
Cyngerdd **Cor Y Brythoniaid a Lleucu Gwawr** yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli. Raffl er budd Menter y Tŵr

**28 Hydref 2025**
Noson **Bingo** yng nghlwb Golff Pwllheli.

## Gwirfoddoli

Cofiwch mae digon o gyfleoedd i fod yn rhan o Fenter Y Twr. Cysylltwch á ni i drafod ymhellach drwy yrru neges i yTŵrpwllheli@gmail.com neu drwy ein cyfryngau cymdeithasol.

Criw Y Twr x

www.ytwr .cymru